

RNIB
Cymru
Golwg gwahanol
See differently

# Egwyddorion Allweddol ar gyfer Dylunio Strydoedd Cynhwysol

## Cyflwyniad

Mae cerdded yn allweddol i wneud ymarfer corff, cadw mewn cysylltiad â theulu a chymuned, cyrraedd y gwaith, a chael mynediad at wasanaethau allweddol fel gofal iechyd. I'r rhai nad ydynt yn gallu gyrru, mae'n debygol mai cerdded fydd y prif ddull o deithio, ac ar y cyd â thrafnidiaeth gyhoeddus mae'n hanfodol ar gyfer annibyniaeth.

Bydd yr Egwyddorion Allweddol hyn ar gyfer Dylunio Strydoedd Cynhwysol yn helpu i sicrhau bod ein strydoedd mor hygyrch â phosibl. Mae dylunio cynhwysol yn ddylunio gwell i bawb: pobl sydd â cholled golwg, pobl anabl eraill, pobl hŷn, gofalwyr sydd â phlant, ac, yn y pen draw, i bawb sy'n dymuno defnyddio ein strydoedd. Drwy gydweithio, gallwn wneud ein strydoedd yn wirioneddol gynhwysol.

### Cefnogir gan:

- Cŵn Tywys
- Ymddiriedolaeth Thomas Pocklington
- Visionary
- Y Gymdeithas Facwlaidd
- Glaucoma UK
- Rhwydwaith Proffesiynol y Gweithwyr Adsefydlu
- Sense
- Scope
- Brake
- Disability Rights UK
- Pobl yn Gyntaf

## Rhestr wirio dylunio strydoedd cynhwysol

Defnyddiwch y rhestr wirio gyflym hon i brofi hygyrchedd eich dyluniadau strydoedd:

1. Ydi'r holl balmentydd, y rhodfeydd a'r llwybrau y byddai cerddwyr yn eu defnyddio yn cael eu cadw'n rhydd i gerddwyr yn unig – h.y. a ydynt bob amser wedi'u gwahanu oddi wrth gerbydau gan gyrb y gellir ei ganfod (lleiafswm o 60mm ar i fyny)?
2. Oes digon o lwybrau i gerddwyr yn unig i fynd â phobl yn ddiogel o ddechrau i ddiwedd eu siwrneiau cerdded (er enghraifft, o siopau neu ardaloedd preswyl i drafnidiaeth gyhoeddus)?
3. Oes gan ffyrdd a llwybrau beicio groesfannau hygyrch, wedi'u rheoli gan signalau, fel bod cerddwyr yn gallu croesi'n ddiogel?
4. Oes gan bob palmant, rhodfa a llwybr y byddai cerddwyr yn eu defnyddio lwybrau clir a dirwystr sydd o leiaf dwy fetr (6.6 troedfedd) o led?
5. Ydi'r hybiau trafnidiaeth fel gorsafoedd trenau, arosfannau bysiau a chyfleusterau cymunedol yn hygyrch i bawb?
6. Ydi mynediad i bobl anabl sy'n teithio mewn ceir neu dacsis yn cael ei gynnal ar lwybrau cerddwyr neu lwybrau sydd â lefel isel o draffig?
7. Ydi'r dyluniadau newydd neu newidiadau arfaethedig yn cydymffurfio â'r canllawiau presennol ar hygyrchedd?
   Er enghraifft, a ydynt yn darparu cyferbyniad lliw da ac a oes palmant cyffyrddol wedi'i osod yn gywir mewn ffordd sy'n lleihau'r effaith negyddol bosibl ar ddefnyddwyr cadair olwyn.
8. A ymgynghorwyd ar ddyluniadau newydd neu newidiadau arfaethedig, ac a wnaethpwyd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb?
9. Oes unrhyw broblemau hygyrchedd y tynnwyd sylw atynt yn yr ymgynghoriad neu ym mhrosesau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u datrys?
10. Ydi'r holl bobl leol wedi cael gwybod am newidiadau a wnaed i'w hardal leol, gan gynnwys y rhai sydd angen gwybodaeth mewn fformatau gwahanol?

**Os ydych chi wedi ateb na i unrhyw un o'r cwestiynau, efallai y bydd eich stryd yn eithrio rhai cerddwyr. Edrychwch ar yr Egwyddorion Allweddol ar gyfer Dylunio Strydoedd Cynhwysol isod i weld beth sydd ei angen i wneud eich stryd yn hygyrch.**



## 1. Rhaid cadw cerddwyr a cherbydau sy'n symud ar wahân

- Rhaid cadw palmentydd a mannau i gerddwyr at ddefnydd cerddwyr yn unig. Mae cerddwyr yn cynnwys pobl yn cerdded, defnyddwyr cadair olwyn a defnyddwyr sgwteri symudedd.
- Nid yw ardaloedd defnydd cymysg – lle mae cerddwyr a cherbydau, gan gynnwys beiciau ac e-sgwteri, yn defnyddio'r un ardal ar yr un pryd – yn gynhwysol. Nid yw unrhyw fannau lle mae angen i gerddwyr a defnyddwyr ffyrdd eraill drafod hawliau tramwy yn gynhwysol a gallant fod yn beryglus. Mae ardaloedd defnydd cymysg yn cynnwys mannau a rennir, croesfannau twcan, croesfannau Copenhagen, ac arosfannau bysiau lle mae'n rhaid i deithwyr groesi llwybr beicio i fynd at y bws. Mae angen digon o lwybrau rhesymegol a chysylltiedig i gerddwyr yn unig i fynd â cherddwyr yn ddiogel o ddechrau i ddiwedd eu siwrneiau cerdded.
- Mae angen i ddyluniadau strydoedd, gan gynnwys cyffyrdd, fod yn hawdd eu deall ac yn ddiogel i'w defnyddio ar gyfer pob cerddwr.

## 2. Rhaid i groesfannau fod yn hygyrch

- Mae'r croesfannau mwyaf hygyrch yn cael eu rheoli gan signalau, gyda bocsys botwm gwthio yn galluogi cerddwyr i ofyn i draffig stopio. Mae cyrbiau isel a phalmentydd cyffyrddol blister coch yn helpu pobl sydd â cholled golwg i ddarganfod ble mae'r mannau croesi hyn. Mae croesfannau a reolir gan signalau'n defnyddio golwg, sain a chyffyrddiad (dyn gwyrdd, sain bîp, a chonau cylchdroi o dan y bocsys botwm gwthio) i roi gwybod i gerddwyr pryd mae'n dro iddyn nhw groesi.
- Mae croesfannau sebra a chroesfannau cwrteisi yn llawer llai diogel i gerddwyr na allant gadw llygad am gerbydau sy'n dod tuag atynt am nad ydynt efallai'n gallu eu gweld, eu clywed na symud oddi wrthynt.



- Nid yw croesfannau sy'n creu arwynebau gwastad neu lwybrau troed parhaus (fel croesfannau Copenhagen) yn ddiogel nac yn hygyrch. Mae'r rhain yn ymestyn ymddangosiad a theimlad palmant dros ffordd, neu gyffordd lle mae ffyrdd ochr yn ymuno â phrif ffordd, gan greu arwyneb gwastad drwy gael gwared ar nodweddion cyffyrddadwy y gellir eu canfod, fel cyrbiau ar i fyny, sy'n golygu na all cerddwyr bob amser ddweud pan fyddant mewn ardal lle gall cerbydau fod yn symud.
- Mae angen digon o groesfannau hygyrch i gerddwyr a reolir gan signalau dros ffyrdd a llwybrau beicio yn y mannau cywir: mae'r rhain yn arbennig o bwysig ar hyd llwybrau allweddol at wasanaethau hanfodol e.e. hybiau trafnidiaeth, siopau, swyddfeydd, ysbytai, ysgolion, a chyfleusterau cymunedol fel parciau.
- Mae'r cynnydd mewn cerbydau trydan tawel yn creu heriau newydd i bobl sydd â cholled golwg, felly mae angen croesfannau hygyrch mewn ardaloedd llif traffig is yn ogystal ag ardaloedd prysurach.

## 3. Rhaid i gyrbiau fod yn hawdd eu canfod

- Mae angen cyrbiau y gellir eu canfod i wahanu ardaloedd i gerddwyr oddi wrth bob man lle mae cerbydau'n symud, gan gynnwys llwybrau beicio a ffyrdd.
- Dylai cyrbiau y gellir eu canfod fod â gwrthgyferbyniad clir i'r ardal o'u cwmpas fel bod ci tywys yn gallu eu gweld neu eu hadnabod yn hawdd.
- Mae ymchwil yn dweud wrthym bod rhaid i gyrb fod yn 60mm (2.4 modfedd) o leiaf er mwyn i bobl sydd â cholled golwg ei deimlo o dan draed, neu gyda ffon wen, ond po fwyaf o nodweddion diogelwch hanfodol y gellir eu canfod, y gorau ydynt am weithio. Yr uchder safonol ar gyfer cyrbiau yn y DU yw 120mm (4.7 modfedd).
- Mae angen gostwng cyrbiau y gellir eu canfod i fod yn gyrbiau isel ym mhob man croesi i gerddwyr. Mae angen gosod palmant cyffyrddol blister mewn coch ar y cyrbiau ar gyfer croesfannau sy'n cael eu rheoli, ac unrhyw liw cyferbyniol nad yw'n goch ar gyfer croesfannau nad ydynt yn cael eu rheoli.

## 4. Rhaid i balmentydd fod yn glir a heb rwystrau

- Mae angen llwybrau clir heb annibendod ar gerddwyr. Mae canllawiau Llywodraeth y DU (Symudedd Cynhwysol) yn argymell llwybr clir dwy fetr (6.6 troedfedd) o led, er mwyn caniatáu lle i ddau ddefnyddiwr cadair olwyn basio ei gilydd.
- Dylid lleihau unrhyw rwystrau, yn enwedig i'r llinell adeiladu neu'r cyrbiau (e.e. drwy ddefnyddio gofod ffordd yn lle hynny).
- Hefyd dylai lleoliad unrhyw ddodrefn stryd fod yn gyson ac yn unol â thrwyddedu lleol, y dylid ei orfodi'n gadarn.
- Mae dodrefn stryd neu rwystrau ag ymylon miniog a siapiau afreolaidd yn arbennig o beryglus. Os nad oes

modd symud rhwystrau, gall lliwiau llachar a deunyddiau cyferbyniad uchel eu gwneud mor ddiogel ac amlwg â phosibl.

- Peidiwch â gadael i gerbydau barcio ar balmentydd neu lwybrau cerdded. Dylai dylunwyr strydoedd a pholisïau cenedlaethol a lleol roi blaenoriaeth i liniaru effaith negyddol rhwystrau stryd ar gerddwyr (fel biniau olwynion, dodrefn palmant a byrddau hysbysebu) a pharhaol (fel bolardiau, mannau gwefru cerbydau trydan a meinciau). Er enghraifft, gellir rhoi gwybod i gasglwyr biniau am strydoedd lle mae preswylwyr ar y cofrestrau colled golwg yn byw a sicrhau bod biniau'n cael eu dychwelyd i ardaloedd penodol i leihau rhwystrau neu i'w gwneud yn haws eu gweld os na ellir eu hosgoi.

## 5. Rhaid i hybiau trafnidiaeth a chyfleusterau cymunedol fod yn hygyrch

- Mae llwybrau cerdded i gerddwyr yn unig, cyrbiau canfyddadwy a chroesfannau hygyrch a reolir gan signalau yn bwysig ym mhobman ond dylid rhoi blaenoriaeth arbennig iddynt ar hyd llwybrau i hybiau trafnidiaeth a chyfleusterau cymunedol. Mae hybiau trafnidiaeth yn cynnwys gorsafoedd trenau, arosfannau bysiau, arosfannau tramiau a safleoedd tacsis.
- Mae arosfannau bysiau sy'n gofyn i gerddwyr groesi lôn feicio (sy'n defnyddio enwau sy'n cynnwys arosfannau bysiau byrddau, arosfannau bysiau Copenhagen, arosfannau bysiau arnofiol a llwybrau osgoi arosfannau bysiau) yn gwneud bysiau'n anhygyrch i lawer o bobl sydd fel arall yn dibynnu ar deithio ar fysiau.
- Dylid ailgynllunio'r arosfannau bysiau presennol fel bod gan bobl ffordd hygyrch o groesi llwybrau beicio byw wrth fynd ar y bws a dod oddi arno. Mae'r RNIB yn annog ac yn cymryd rhan mewn ymchwil a threialon i ddod o hyd i atebion i'r broblem hon.

## 6. Rhaid cynnal mynediad i bobl sydd angen teithio mewn car neu dacsi

- Mae rhai pobl anabl yn dibynnu ar geir neu dacsis, felly mae angen mynediad diogel i'r rhain, hyd yn oed ar lwybrau traffig isel ac ardaloedd sydd wedi'u troi'n ardaloedd i gerddwyr yn unig. Gallai mynediad diogel gynnwys prosesau syml a hygyrch ar gyfer eithriadau mynediad i gerbydau, mannau gollwng a chasglu diogel, a safleoedd tacsis wedi'u marcio'n glir.

## 7. Rhaid cynnal ymgynghoriadau hygyrchedd

- Mae gofyniad cyfreithiol ar gynghorau i ddilyn canllawiau'r Llywodraeth ar ddylunio strydoedd a hygyrchedd fel maent yn berthnasol yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Rhaid i unrhyw ddyluniadau strydoedd neu fannau cyhoeddus gydymffurfio'n llawn â'r canllawiau hyn yn absenoldeb amgylchiadau eithriadol.

- Dylai cynghorau, cynllunwyr a dylunwyr wirio'n drylwyr sut mae eu dyluniadau newydd neu newidiadau arfaethedig yn cyd-fynd â'r Egwyddorion Allweddol ar gyfer Dylunio Strydoedd Cynhwysol yn y ddogfen hon cyn symud ymlaen i ymgynghoriad cyhoeddus a datblygiad. Bydd hyn yn sicrhau bod y dyluniadau mor hygyrch â phosibl o'r dechrau un.
- Mae'n ofyniad cyfreithiol bod rhaid i ymgynghoriadau cyhoeddus ar unrhyw gynigion stryd a thir cyhoeddus newydd sy'n cael eu rhedeg gan neu ar ran cynghorau fod yn hygyrch.
- Bydd dealltwriaeth wybodus o'r ystod o anghenion mynediad sydd gan y rhai sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys oedran, bod yn rhiant ac anabledd - gan gynnwys anghenion penodol pobl ddall ac â golwg rhannol - yn gwella dyluniadau yn y cam datblygu ac yn helpu i osgoi ymgynghoriadau cyhoeddus hirfaith ac ôl-osod drud yn ddiweddarach.
- Nid yw ymgysylltu ystyrlon â phobl anabl yn ymwneud â bodloni gofynion hygyrchedd sylfaenol yn unig; gall gynnwys trefnu ymweliadau safle a chyfleoedd i sicrhau adborth gan bobl anabl leol ar y cam dylunio cynharaf.

## 8. Rhaid cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- Mae'n ofyniad cyfreithiol bod cynghorau'n asesu effaith eu holl gynlluniau, o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998; Deddf Cydraddoldeb a Dyletswyddau Penodol yr Alban yn yr Alban). Gall cynghorau ddangos cydymffurfiaeth drwy gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac archwiliad hygyrchedd.
- Mae'n ofyniad cyfreithiol bod unrhyw faterion hygyrchedd a grybwyllir mewn ymgynghoriadau neu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cydnabod ac yn cael sylw lle bynnag y bo modd cyn gweithredu cynigion.
- Ni ddylid datblygu dyluniadau neu gynigion nad ydynt yn bodloni'r Egwyddorion Allweddol ar gyfer Dylunio Strydoedd Cynhwysol a amlinellir yn y ddogfen hon.

## 9. Rhaid rhoi gwybod am y newidiadau i'r holl bobl leol

Mae'n ofyniad cyfreithiol ystyried hygyrchedd unrhyw hysbysiadau, hysbysebion papur newydd neu gynlluniau a gyhoeddir i hysbysu pobl leol am newidiadau i'w hardal.

Rhaid hysbysu pobl sy'n byw yn yr ardal leol am y newidiadau arfaethedig mewn fformatau hygyrch (e.e., ffeiliau sain, galwadau ffôn, mapiau cyffyrddol, ffotograffau, braille, print bras).

Mae angen i gynghorau gysylltu â grwpiau a sefydliadau lleol i hysbysu am unrhyw newidiadau a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyhoeddusrwydd i'r dogfennau ymgynghori sydd ar gael mewn fformatau hygyrch.

RNIB

**Llinell Gymorth yr RNIB 0303 123 9999**
**helpline@rnib.org.uk**

**Dilynwch ni ar-lein:**

facebook.com/rnibuk

twitter.com/RNIB

# rnib.org.uk

© Yr RNIB - elusen gofrestredig yr RNIB yng Nghymru a Lloegr (226227), yr Alban (SC039316) ac ar Ynys Manaw (1226). Hefyd yn gweithredu yng Ngogledd Iwerddon.

SC230301